**Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Solar Porth Wen**
**4pm, Dydd Mercher 21 Medi 2022**
**Canolfan Dreftadaeth Cemaes**
**COFNODION**
**TERFYNOL**

**Aelodau**

| **Enw** | **Rôl/sefydliad** |
|---|---|
| Y Cyngh. Carys Davis | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Y Cyngh. Aled Morris Jones | Ward Twrcelyn |
| Y Cyngh. Derek Owen | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Y Cyngh. Llio Owen | Ward Talybolion |
| Y Cyngh. Myrddin Owens | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyngh. Gareth Winston Roberts | Cyngor Tref Amlwch |

**Yn bresennol**

| **Enw** | **Rôl/sefydliad** |
|---|---|
| Kerry MacPhee | Swyddog Cyswllt Cymunedol, EDF Renewables |
| Gwynfor Owen | Cyfieithydd ar y pryd, Geiriau Gwyn |
| Mark Reynolds | Rheolwr Adeiladu |

**1. Croeso**

Croesawyd y grŵp gan y Cadeirydd Aled Morris Jones.

**2. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Angharad Crump a Debbie Jones.

**3. Cofnodion**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol gan y grŵp.

**4. Diweddariad ar y prosiect**

Cyflwynodd Mark Reynolds y diweddariadau adeiladu canlynol:

- Mae gwaith peilio a chloddio yn parhau.
- Mae gosod ffosydd a cheblau rhesi PV yn parhau.
- Gorsafoedd trawsnewid i'w darparu erbyn diwedd y flwyddyn.
- Gwaith ar yr is-orsaf bron wedi'i gwblhau - gyda thrawsnewidydd grid yn cael ei ddarparu a'i osod.
- 4 Ebrill yw’r nod ar gyfer yr egnioli cyntaf.
- Mae contractwyr JBC lleol wedi dechrau gweithio gyda Grupotec – gan ddefnyddio llafur lleol.
- Derbyniwyd cwyn sŵn gan breswylydd lleol. Ystyriwyd bod hyn yn unol â’r amodau cynllunio. Bydd EDF Renewables yn gweithio gyda’r preswylydd dan sylw pan fydd y strategaeth plannu coed yn cael ei diffinio er mwyn gwella’r clustogi o amgylch ei heiddo ymhellach.

**5. Cronfa Budd Cymunedol (CBC)**

• Adroddodd Kerry yn ôl i'r grŵp na fyddai EDF Renewables yn ychwanegu £2,000 y flwyddyn at y CBC. Y rheswm am hyn oedd bod y gronfa eisoes wedi ei dyblu o £10,000 i £20,000. Mae'r grŵp wedi gofyn am drafod hyn eto. Mae Kerry wedi gofyn i'r grŵp gyflwyno cynnig am arian ychwanegol yn ysgrifenedig.

• Gwnaed cais i'r grŵp ailystyried gwariant arfaethedig arian a ffrydiau ysgolion wedi'u clustnodi ar wahân i'r Gymraeg yn unig. Mae'r grŵp wedi penderfynu y dylid gwario arian sydd wedi'i glustnodi ar y Gymraeg yn unig a bydd yn ysgrifennu at ysgolion i roi gwybod iddynt am hyn.

**6. Unrhyw Fater Arall**

• Dylid cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol yng Nghanolfan Dreftadaeth Cemaes.

• Mae'r geiriad sydd wedi'i gyfieithu ar rai arwyddion yn anghywir. Mark Reynolds i adolygu trwy Grupotec a sicrhau bod cyfieithiadau Cymraeg yn gywir a'r Gymraeg yn ymddangos uwchlaw'r Saesneg yn gyson.

**7. Camau Gweithredu**

• GCC i gyflwyno cais ysgrifenedig am gyllid uwchlaw'r CBC a fframwaith ar gyfer gwariant arfaethedig.

• Kerry a Mark i ddarparu mewnwelediad mwy manwl i gontractwyr lleol a chreu gwaith ar Ynys Môn o ganlyniad i'r prosiect.

• GCC i ysgrifennu at ddwy ysgol leol i'w hysbysu o'u gwariant dewisol o'r CBC.

**8. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**

4-6pm, dydd Mercher 14 Rhagfyr 2022 yng Nghanolfan Dreftadaeth Cemaes.